Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trefniadau Gwrth-dwyll – Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych


Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5063A2025

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull ymatebol o fynd i'r afael â thwyll ac nid yw'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i atal twyll rhag digwydd.


Crynodeb o'r adroddiad

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull ymatebol o fynd i'r afael â thwyll ac nid yw'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i atal twyll rhag digwydd 6

- Mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd diwylliant gwrth-dwyll da 6
- Mae dogfen strategaeth a Chynllun Ymateb i Dwyll y Cyngor wedi dyddio ac nid yw'n cyd-fynd â'r arfer cyfredol mewn maes allweddol mwyach 7
- Nid yw'r Cyngor yn cynnal asesiad risg twyll cynhwysfawr sy'n llywio ei waith ar atal twyll yn uniongyrchol 8
- Mae'r Cyngor yn ymateb i honiadau o dwyll pan gânt eu gwneud ond ni all ddangos ei fod yn cymryd dull rhagweithiol, sy'n seiliedig ar risg, o atal twyll 9
- Er gwaethaf archwilio amrywiaeth o opsiynau recriwtio, nid oes gan y Cyngor ddigon o staff hyfforddedig a phrofiadol mewn gwrth-dwyll ar hyn o bryd 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio 11

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb

### Yr hyn yr edrychom arno a pham

1 Gwnaethom asesu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud i weithredu'r 15 argymhelliad a wnaed yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru o fis Gorffennaf 2020. Gwnaethom hefyd adolygu i ba raddau y mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i atal a chanfod twyll ac, felly, i'w helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Mae twyll yn gyffredin ym mhob sector gan gynnwys y sector cyhoeddus. Mae pob punt sy'n cael ei dwyn o'r sector cyhoeddus yn golygu bod llai i'w wario ar wasanaethau allweddol. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysicach nag erioed i bob corff cyhoeddus yng Nghymru geisio lleihau'r risg o golledion drwy dwyll.

3 Nododd adroddiad[1] gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2019 nad yw'r gwerth y mae'r sector cyhoeddus yn ei golli oherwydd twyll yn hysbys. Nododd adroddiad gan Swyddfa'r Cabinet yn 2019[2] ystod uchaf ac isaf ar gyfer colledion tebygol mewn gwariant y llywodraeth o rhwng 0.5% a 5% o wariant. Mae cymhwyso'r amcangyfrifon hynny i gyllideb refeniw gros Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych o £331,088 miliwn yn 2023-24 yn awgrymu[3] y gallai colledion oherwydd twyll a gwallau fod rhwng £1.65 miliwn a £16.55 miliwn y flwyddyn.

4 Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Mehefin 2025.

### Yr hyn a ganfuom

5 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddull o atal a chanfod twyll?

6 Ar y cyfan, gwelsom fod: **Y Cyngor yn mabwysiadu dull ymatebol o fynd i'r afael â thwyll ac nid yw'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i atal twyll rhag digwydd.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor yn deall pwysigrwydd diwylliant gwrth-dwyll da;
- bod Strategaeth y Cyngor ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo a'r Cynllun Ymateb i Dwyll wedi dyddio ac nid ydynt yn cyd-fynd â'r arfer cyfredol mewn maes allweddol mwyach;

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Atal Twyll yn Sector cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2019

[2] Swyddfar'r Cabinet, Adroddiad Blynyddol Tirwedd Twyll Trawslywodraethol 2019, Chwefror 2020

[3] Stats Cymru

- nid yw'r Cyngor yn cynnal asesiad risg twyll cynhwysfawr sy'n llywio ei waith ar atal twyll yn uniongyrchol;
- bod y Cyngor yn ymateb i honiadau o dwyll pan gânt eu gwneud ond ni all ddangos ei fod yn cymryd dull rhagweithiol, sy'n seiliedig ar risg, o atal twyll;
- er gwaethaf archwilio amrywiaeth o opsiynau recriwtio, nid oes gan y Cyngor ddigon o staff hyfforddedig a phrofiadol mewn gwrth-dwyll ar hyn o bryd.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddull o fynd i'r afael â thwyll a'i atal drwy wneud y canlynol:<br>• diweddaru ei ddogfennau strategol allweddol sy'n ymwneud â gwrth-dwyll, gan gynnwys y Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo a'r Cynllun Ymateb i Dwyll, gan sicrhau bod y prosesau a nodir yn y dogfennau hynny yn cyd-fynd â'r arferion cyfredol;<br>• adolygu sut mae'n cynllunio ac yn defnyddio adnoddau ar gyfer gwaith gwrth-dwyll, er mwyn caniatáu i weithgarwch atal twyll rhagweithiol ddigwydd;<br>• adolygu'r gofrestr buddiannau i sicrhau bod staff ac aelodau yn ei defnyddio'n effeithiol;<br>• sicrhau ei fod yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle eid i'r afael â thwyll yn llwyddiannus, lle bo'n briodol gwneud hynny. |
| A2 | Dylai'r Cyngor ddatblygu asesiad risg twyll cynhwysfawr a ddefnyddir wedyn i lywio rhaglen waith Archwilio Mewnol a gweithgarwch gwrth-dwyll arall. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull ymatebol o fynd i'r afael â thwyll ac nid yw'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i atal twyll rhag digwydd

### Mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd diwylliant gwrth-dwyll da

7 Y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, a'r Prif Archwilydd Mewnol sydd â chyfrifoldeb dynodedig am atal twyll yn y Cyngor. Mae atebolrwydd ar lefel uwch addas yn helpu i osod disgwyliadau diwylliannol ac yn darparu mynediad clir i'r uwch-dîm arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC).

8 Nid yw'r tîm Archwilio Mewnol yn gyfrifol am atal twyll, ond mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau bod rheolaethau mewnol effeithiol ar waith ac wrth ymchwilio i honiadau o dwyll.

9 Cyhoeddwyd y Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (y strategaeth) yn 2021 ac mae adolygiad o'r strategaeth yn ddyledus erbyn hyn (o fis Hydref 2024). Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn nodi'n glir: 'nid yw'r Cyngor yn goddef ac na fydd yn goddef unrhyw fath o dwyll, llygredd na llwgrwobrwyo wrth ymgymryd ag unrhyw un o'i gyfrifoldebau'.

10 Mynegodd uwch-arweinwyr y gwnaethom gyfweld â nhw barn gyson bod honiadau o dwyll yn cael eu cymryd o ddifrif gan y Cyngor ac nad yw twyll yn cael ei oddef. Gwnaethant ddangos dealltwriaeth o'u rolau fel y'u nodir yn y strategaeth. Er bod adolygiad o'r strategaeth yn ddyledus, gyda golwg penodol ar hyn mae'n dal i adlewyrchu arferion y Cyngor.

11 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi ymchwilio i nifer o honiadau o dwyll[4]. Er bod nifer yr honiadau'n codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd ati i atal twyll, mae hefyd yn awgrymu bod staff y Cyngor yn gwybod sut i godi pryderon ac yn hyderus bod gwneud hynny'n werth chweil.

12 Nid oes gan y Cyngor hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll ar waith i'r holl staff ar hyn o bryd, ond mae ganddo gynlluniau ar waith i roi hyn ar waith yn fuan. Felly mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud o ran cefnogi staff i ganfod ac atal twyll, ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Byddai hyfforddiant effeithiol ar gyfer gwrth-dwyll yn helpu staff ac aelodau i ddeall eu rôl mewn perthynas â gwrth-dwyll, yn rhoi'r hyder a'r sgiliau iddynt i roi gwybod am achosion tybiedig o dwyll, ac yn cyfrannu at ddiwylliant gwrth-dwyll y Cyngor.

[4] Cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol chwe ymchwiliad arbennig yn ystod 2024-25 a saith ymchwiliad arbennig yn ystod 2023-24. Allan o'r 13, roedd pump yn ymwneud â thwyll neu dwyll posibl. Roedd dau o'r pump hynny'n ymwneud â materion Cyngor Tref. Ffynhonnell – Adroddiad Drafft Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25, fel yr adroddwyd i GAC ar 11 Mehefin 2025

13 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael diweddariad chwarterol gan y Prif Archwilydd Mewnol sy'n cynnwys gwybodaeth am ymchwiliadau i dwyll a gwaith gwrth-dwyll. Roedd gan y swyddogion y cawsom sgwrs â nhw farn gadarnhaol o GAC a'u hymgysylltiad â rhaglen waith y pwyllgor, gan gynnwys gwrth-dwyll.

## Mae dogfen strategaeth a Chynllun Ymateb i Dwyll y Cyngor wedi dyddio ac nid yw'n cyd-fynd â'r arfer cyfredol mewn maes allweddol mwyach

14 Mabwysiadwyd strategaeth a Chynllun Ymateb i Dwyll y Cyngor gan y Cyngor yn 2021 ac roedd i fod i gael ei hadolygu ym mis Hydref 2024. Ar adeg ysgrifennu, nid oedd hyn wedi digwydd. Clywsom gan gyfweleion fod problemau capasiti yn yr Adran Archwilio Mewnol yn golygu nad oes amser wedi bod i ddiweddaru llawer o'r dogfennau strategol perthnasol.

15 Mae'r Cyngor yn cynnal gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys gwiriadau DBS a geirdaon. Adroddir cydymffurfiaeth â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'r Bwrdd Diogelu. Cadarnhaodd y rheolwyr y cawsom sgwrs â nhw fod y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith o ynghylch y broses brawf yn sicrhau cydymffurfiaeth. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i leihau'r risg o gyflogi pobl anonest.

16 Mae gan y Cyngor gofrestr rhoddion a lletygarwch, a gedwir gan Adnoddau Dynol, ond nid oes unrhyw gofnodion arni ar hyn o bryd. Yn ystod ein gwaith maes, dangosodd y cyfweleion ddealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â derbyn rhoddion a lletygarwch, ond roedd gwybodaeth am y broses ar gyfer datgan eitemau o'r fath yn anghyson.

17 Mae cynllun ymateb i dwyll y Cyngor yn nodi'r broses ymchwilio i dwyll, rolau a chyfrifoldebau swyddogion sy'n rhan o'r broses ymchwilio, a'r trefniadau eang ar gyfer delio â staff sydd dan amheuaeth o dwyll.

18 Mae'r cynllun ymateb i dwyll yn nodi, unwaith y bydd y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Archwilydd Mewnol yn ymwybodol o honiad o dwyll, y dylent gynnull Panel Ymateb i Dwyll. Bydd y Panel yn cynghori'r Swyddog Monitro ar sut i fwrw ymlaen (h.y. a ddylid dilyn proses ddisgyblu, hysbysu'r heddlu, neu opsiwn arall). Bydd y Swyddog Monitro yn ystyried cyngor y Panel wrth wneud ei benderfyniad. Mae'r cynllun ymateb yn caniatáu hyblygrwydd o ran sut mae'r Panel yn cynnal ei fusnes, gan y gall gyfarfod yn ffurfiol neu drafod y materion dros e-bost, ond mae'r cynllun yn glir bod yn rhaid cynnull Panel. Er bod y Cyngor wedi rhoi rhywfaint o ddogfennaeth inni y mae'n dweud ei fod yn ei defnyddio yn lle'r broses a nodir yn y Cynllun, ni welsom dystiolaeth bod y Cyngor yn cynnull Paneli Ymateb i Dwyll, ac felly nid ydym yn sicr ei fod yn dilyn ei brosesau ei hun. Cynghorodd swyddogion eu bod yn dilyn proses newydd yn seiliedig ar ganllawiau CIPFA. Fodd bynnag, nid yw'r newid hwn wedi'i ddiweddaru yn y Cynllun Ymateb i Dwyll.

19 Er bod gan y Cyngor rai elfennau o ddull strategol o atal twyll ar waith, mae dogfennau allweddol (y strategaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll) wedi dyddio neu

nid ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd. Mae hyn yn cynyddu'r risg nad yw'r Cyngor yn targedu ei adnoddau'n effeithiol neu ei fod yn delio â honiadau yn anghyson.

## Nid yw'r Cyngor yn cynnal asesiad risg twyll cynhwysfawr sy'n llywio ei waith ar atal twyll yn uniongyrchol

20 Mae gan y Cyngor brosesau ar waith i flaenoriaethu gwaith Archwilio Mewnol ac mae'n ymwybodol o'r risg o dwyll ar lefel gorfforaethol. Ond nid yw'r Cyngor yn adeiladu ar y gweithgaredd hwn i gynllunio a llywio gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol.

21 Mae’r tîm Archwilio Mewnol yn cynnal ymarfer mapio blynyddol lle, mewn trafodaeth â Phenaethiaid Gwasanaeth, mae'r Prif Archwilydd Mewnol yn nodi meysydd y gellir eu cynnwys ar raglen waith Archwilio Mewnol. Caiff pob pwnc ei sgorio yn ôl lefel y risg yn erbyn meini prawf perthnasol. Mae'r ymarfer hwn yn llywio cynllun gwaith blynyddol y tîm Archwilio Mewnol, lle mae'r pynciau sy'n sgorio uchaf yn cael blaenoriaeth.

22 Nid yw'r broses ar gyfer dewis eitemau i'w cynnwys yn yr ymarfer mapio, a'r rhesymeg dros sgorio, yn glir, gan nad oes naratif ategol yn nogfen yr ymarfer mapio. Er bod y broses yn nodi rhai meysydd y gwyddys eu bod yn wynebu mwy o berygl o dwyll, fel systemau ariannol allweddol, nid yw'r holl risgiau a nodwyd yn risgiau o dwyll, er enghraifft, gall y risg fod yn ymwneud ag arbedion yn y gyllideb neu bryder diogelwch.

23 Mae'n amlwg bod yr ymarfer mapio yn ymarfer cynllunio gwaith a blaenoriaethu ar gyfer Archwilio Mewnol. Er bod ymchwilio i dwyll a'i atal yn rhan bwysig o waith Archwilio Mewnol, nid dyma ei unig rôl. Felly ni ellir ystyried yr ymarfer mapio fel asesiad risg twyll cynhwysfawr, gan nad dyma ei ddiben.

24 Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys y risg o dwyll, ond nid yw'n nodi meysydd gwasanaeth penodol lle mae mwy o risg o dwyll.

25 Teitl Atodiad C y strategaeth yw ‘Risgiau Twyll’. Dyma restr o risgiau sy'n sylweddol iawn i Awdurdodau Lleol, fel twyll Bathodyn Glas neu’r Dreth Gyngor. Nid yw'r rhestr wedi'i blaenoriaethu ac nid yw'n benodol i'r Cyngor.

26 Mae'r gofrestr risg gwasanaeth yn nodi'r risg o dwyll mewn dau faes gwasanaeth (Pobl, a Chyllid ac Archwilio), ond nid mewn meysydd gwasanaeth eraill.

27 Felly, ni ddefnyddir yr un o'r dogfennau hyn, ac ni ellid eu defnyddio, i nodi meysydd penodol o risg fwy er mwyn llywio a blaenoriaethu gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol. Mae peidio â chael asesiad risg twyll ar waith yn golygu nad oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n briodol, neu i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg.

## Mae'r Cyngor yn ymateb i honiadau o dwyll pan gânt eu gwneud ond ni all ddangos ei fod yn cymryd dull rhagweithiol, sy'n seiliedig ar risg, o atal twyll

28 Rydym wedi nodi uchod na all y Cyngor ddangos ei fod yn asesu risg twyll. Felly, nid yw'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ble i flaenoriaethu ei adnoddau cyfyngedig o ran gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol.

29 Gall y Cyngor ddangos ei fod yn ymatebol i honiadau o dwyll, a'i fod yn ceisio dysgu gwersi o achosion o dwyll, o fewn y Cyngor ac mewn sefydliadau eraill. Mae'r Cyngor hefyd yn sicrhau bod rhai meysydd risg uchel, fel systemau ariannol allweddol y Cyngor, yn cael eu hadolygu gan y tîm Archwilio Mewnol bob blwyddyn

30 Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Ni ddisgwylir i gyfranogwyr yr NFI edrych ar bob pariad data. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu pa ddata cyfatebol i edrych arno ac ym mha drefn. Ar gyfer yr ymarfer NFI dwyflynyddol blaenorol, adroddodd y Cyngor am arbedion ym meysydd y dreth gyngor (disgowntiau person unigol a chymhorthion cynllun gostyngiadau) a budd-daliadau tai. Adolygwyd amrywiaeth o feysydd paru data, er ein bod yn nodi na chafodd rhai setiau data eu hymchwilio'n amserol. Gallai oedi cyn edrych ar y data olygu bod ymddygiad twyllodrus yn parhau am gyfnod hirach nag oedd angen. Mae'n amlwg bod problemau capasiti'r Cyngor ym maes Archwilio Mewnol, fel y nodir yn y paragraffau isod, ochr yn ochr â nifer gymharol uchel o ymchwiliadau Archwilio Mewnol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cael effaith ar ei allu i gynllunio a chyflawni ei waith archwilio arfaethedig. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu gwaith ymatebol a meysydd o risg uchel amlwg, ond nid oes ganddo'r capasiti wedyn i ymgymryd â gwaith rhagweithiol ychwanegol a allai atal twyll neu ei ddarganfod yn gyflymach.

## Er gwaethaf archwilio amrywiaeth o opsiynau recriwtio, nid oes gan y Cyngor ddigon o staff hyfforddedig a phrofiadol mewn gwrth-dwyll ar hyn o bryd

31 Fel y nodwyd uchod, mae Tîm Archwilio Mewnol y Cyngor yn ymateb i honiadau o dwyll ac yn adolygu systemau ariannol allweddol i leihau'r risg o dwyll o fewn ei raglen waith bresennol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw swyddogion gwrth-dwyll arbenigol pwrpasol o fewn y tîm archwilio mewnol.

32 Mae'r Cyngor wedi ei chael hi'n heriol recriwtio a chadw staff Archwilio Mewnol sydd â chymwysterau a phrofiad addas. Gan mai'r tîm Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o dwyll, mae hyn yn golygu bod y Prif Archwilydd Mewnol wedi bod yn ymwneud yn helaeth â manylion ymchwiliadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod ymateb wedi cael ei roi i bob honiad, mae hyn wedi

cael effaith negyddol ar waith archwilio arfaethedig y Cyngor[5], a'i allu i gynllunio'n strategol.

33 Nododd asesiad cymheiriaid 2024 y Cyngor gan Gyngor Ceredigion hefyd yr heriau staffio mewn Archwilio Mewnol a daeth i'r casgliad, felly, mai dim ond yn rhannol y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar 'Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyledus'.

34 Mewn ymateb i'w heriau recriwtio, mae'r Cyngor wedi cyflogi staff ar lwybrau gyrfa, lle mae staff llai cymwys a phrofiadol yn cael eu recriwtio ac yn gweithio tuag at gymwysterau wrth gyflawni elfennau llai cymhleth o'r rôl.

35 Er bod y Cyngor yn cydnabod y mater y mae'n ei wynebu ac wedi cymryd camau i geisio mynd i'r afael ag ef, mae'n dal yn wir nad oes gan y tîm Archwilio Mewnol ddigon o sgiliau a phrofiad ar hyn o bryd i gwmpasu pob maes o'i waith, er bod staff yn gweithio tuag at gymwysterau addas.

36 Gan fod y Prif Archwilydd Mewnol wedi gorfod ymgymryd â rôl fwy ymarferol o ran cyflawni gwaith archwilio, nid yw elfennau o'r cynllun archwilio wedi'u cyflawni, ac mae'r Cyngor yn ystyried cael cynllun archwilio llai. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid yw adnewyddu'r dogfennau strategol wedi bod yn flaenoriaeth, felly maent wedi dyddio erbyn hyn.

[5] Ni chyflawnwyd 50% o gynllun gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25. Adroddiad Drafft Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25, fel yr adroddwyd i GAC ar 11 Mehefin 2025.

# Atodiad 1

## Cwestiynau’r archwiliad a’r meini prawf archwilio

**Prif gwestiwn yr archwiliad – A yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddull o atal a chanfod twyll?**

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| **1. Arweinyddiaeth a Diwylliant:** | |
| 1.1 A yw’r Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant gwrth-dwyll da? | • Mae'r Cyngor wedi gwneud datganiad clir na fydd twyll a gyflawnir yn erbyn y sefydliad gan unrhyw un mewnol neu allanol yn cael ei oddef a chaiff ei drin yn y ffordd gryfaf.<br>• Mae Cabinet ac Uwch-dîm Arweinyddiaeth (UDA) y Cyngor yn hyrwyddo gwaith gwrth-dwyll.<br>• Mae'r Cyngor yn magu hyder ymhlith gweithwyr bod twyll yn cael ei gymryd o ddifrif, a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thwyll. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| **2. Fframwaith Rheoli a Rheoli Risg** | |
| 2.1 A yw'r Cyngor yn cynnal asesiadau risg twyll cynhwysfawr? | • Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad risg twyll trylwyr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i ddarparu asesiad gonest o'r risg a'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.<br>• Mae'r asesiad o risg twyll yn seiliedig ar risgiau twyll hysbys, meincnodi, a gwybodaeth a phrofiad mewnol.<br>• Mae'r asesiad risg o dwyll wedi:<br>– defnyddio staff medrus priodol;<br>– ystyried cudd-wybodaeth genedlaethol;<br>– ystyried deallusrwydd penodol y Cyngor ei hun.<br>• Mae'r asesiad risg o dwyll yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| 2.2 A yw asesiadau risg twyll yn cael eu defnyddio fel adnodd byw a'u hintegreiddio o fewn y fframwaith rheoli risg cyffredinol i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli a'u huwchgyfeirio'n briodol yn ôl yr angen? | • Mae'r Cyngor yn ystyried risg twyll fel rhan o'i broses rheoli risg gyffredinol.<br>• Y risg o nodweddion twyll mewn cofrestrau risg adrannol a/neu gorfforaethol.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried risg twyll i'w holl systemau ac wedi edrych ar sut i atal a chanfod twyll yn y system ac mae wedi 'profi twyll' ei weithdrefnau mewn meysydd allweddol e.e. caffael, cyflogres, credydwyr.<br>• Ymgynghorir â staff archwilio gwrth-dwyll/mewnol y Cyngor i brofi polisïau, strategaethau a mentrau newydd ar draws adrannau. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| **3. Polisïau a Hyfforddiant** | |
| 3.1 A oes gan y Cyngor Strategaeth Gwrth-dwyll gynhwysfawr a chyfredol ar gyfer nodi, rheoli ac ymateb i risgiau twyll? | **Strategaeth Gwrth-dwyll**<br>• Mae gan y Cyngor strategaeth gwrth-dwyll gyfredol sy'n nodi ei ddull o reoli risgiau twyll ac sy'n diffinio cyfrifoldebau am weithredu.<br>• Mae'r strategaeth gwrth-dwyll yn cael ei thrawsgyfeirio at bolisïau cysylltiedig eraill h.y. cod ymddygiad, chwythu'r chwiban a chynllun ymateb twyll.<br>• Mae'r strategaeth gwrth-dwyll wedi cael ei chyfleu i staff ac mae ar gael yn rhwydd i'r holl staff fel dogfen gyfeirio.<br>• Mae'r Cyngor yn cynnal sgrinio cyn cyflogi drwy amrywiol wiriadau e.e. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, i leihau'r risg o gyflogi staff anonest ac anfoesegol.<br>• Mae gan y Cyngor bolisi gwrth-lwgrwobrwyo a llygredd cyfoes ar waith sy'n cynnwys trefniadau diwydrwydd dyladwy.<br>• Mae'r Cyngor yn cynnal cofrestr o roddion a lletygarwch, ac mae staff yn cael gwybod am yr angen i gofrestru unrhyw roddion a lletygarwch a dderbynnir. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| **3. Polisïau a Hyfforddiant** | |
| 3.2 A oes gan y Cyngor Gynllun Ymateb i Dwyll cynhwysfawr a chyfredol ar gyfer nodi, rheoli ac ymateb i risgiau twyll? | • Mae gan y Cyngor Gynllun Ymateb i Dwyll sy'n:<br>– amlinellu'r broses ymchwilio i dwyll gyfan;<br>– diffinio'n glir rolau a chyfrifoldebau uwch-reolwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r broses ymchwilio;<br>– amlinellu gweithdrefnau ar gyfer sicrhau tystiolaeth a chynnal cyfweliadau;<br>– nodi trefniadau ar gyfer delio â staff sydd dan amheuaeth;<br>– cynnwys trefniadau ar gyfer pryd, a sut, i gysylltu â’r heddlu;<br>– ymrwymo i ddilyn yr ystod lawn o sancsiynau – disgyblu, rheoleiddiol, sifil a throseddol;<br>– gwneud yn glir y bydd camau adfer yn cael eu cymryd mewn perthynas â phob colled twyll;<br>– egluro sut y bydd gwersi a ddysgwyd o dwyll yn cael eu defnyddio i gryfhau rheolaethau i atal achosion mynych.<br>• Mae'r Cyngor yn monitro bod honiadau o dwyll yn cael eu hasesu yn unol â'i Gynllun Ymateb i Dwyll.<br>• Mae'r Cyngor yn ceisio iawn, gan gynnwys adennill asedau ac arian a gollwyd i dwyll lle bo hynny'n bosibl. |
| 3.3 A yw'r rhai sy'n gweithio i'r Cyngor yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll fel y bo'n briodol i'w rôl i wella effeithiolrwydd sefydliadol wrth atal, canfod ac ymateb i dwyll? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys risgiau o dwyll yn ei hyfforddiant cynefino ar gyfer staff newydd.<br>• Mae'r Cyngor yn sicrhau amlder priodol o hyfforddiant gloywi i'r holl staff ac aelodau etholedig/aelodau annibynnol.<br>• Cadarnheir effeithiolrwydd hyfforddiant gwrth-dwyll drwy brofion.<br>• Caiff hyfforddiant ei ddiweddaru i adlewyrchu risgiau/materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| **3. Polisïau a Hyfforddiant** | |
| 3.4 A yw'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a gafodd sylw llwyddiannus i atgyfnerthu neges gadarn na fydd twyll yn cael ei oddef? | • Mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i dwyll profedig a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r twyllau fel rhwystr.<br>• Mae gan y Cyngor ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd mewnol ac allanol i hyrwyddo gwaith gwrth-dwyll, ac mae'n sicrhau bod y dudalen we gwrth-dwyll yn cael ei diweddaru â gwybodaeth berthnasol a chyhoeddusrwydd.<br>• Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol er mwyn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y bydd twyll yn digwydd. |
| **4. Capasiti ac Arbenigedd** | |
| 4.1 A oes gan y Cyngor ddigon o gapasiti i sicrhau bod adnoddau effeithiol ar waith gwrth-dwyll, fel bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn broffesiynol ac mewn modd sy'n arwain at sancsiynau llwyddiannus yn erbyn y tramgwyddwyr ac adfer colledion? | • Mae gan y Cyngor swyddog â chyfrifoldeb dynodedig dros atal twyll sydd â chefnogaeth y tîm uwch-arweinyddiaeth, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br>• Mae gan y Cyngor strwythur staffio gyda dynodiad clir a llinellau atebolrwydd clir, a dulliau cyfathrebu mewnol da mewn perthynas â gwrth-dwyll.<br>• Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn atal twyll ac yn prynu gwasanaethau os nad oes capasiti yn fewnol. Er enghraifft, trefniadau i gael mynediad at dimau ymchwilio i dwyll arbenigol gan gynnwys: gwyliadwriaeth, fforensig cyfrifiadurol, adfer asedau, ymchwiliadau ariannol. |
| 4.2 A oes gan y Cyngor fynediad at staff gwrth-dwyll hyfforddedig sy'n | • Mae gan y Cyngor (neu mae ganddo fynediad at) arbenigwyr gwrth-dwyll cymwys, proffesiynol wedi'u hyfforddi ac wedi'u hachredu i ymchwilio i achosion tybiedig o dwyll. Os yw'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan dimau Archwilio Mewnol, dylai'r timau hynny gael eu hyfforddi yn y maes hwn. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig? | |
| **5. Offer a Data** | |
| 5.1 A oes gan y Cyngor ymatebion gwrth-dwyll deinamig ac ystwyth sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o gamau gorfodi llwyddiannus? | • Mae strategaeth gwrth-dwyll y Cyngor yn cynnwys dulliau rhagweithiol ac ymatebol.<br>• Mae gan y sefydliad gynllun gwrth-dwyll blynyddol lle mae'r rhaglen waith yn gytbwys.<br>• Mae tystiolaeth bod buddsoddiad y Cyngor mewn gwrth-dwyll yn seiliedig ar benderfyniad gwybodus sy'n deillio o asesiad risg o dwyll sy'n amlygu'r risgiau ac yna'n pennu'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.<br>• Mae tystiolaeth o gamau gweithredu yn cael eu cymryd yn gyflym os canfyddir nad yw rheolaethau mewnol yn perfformio cystal â'r bwriad. Er enghraifft, drwy waith archwilio mewnol, archwilio allanol, Menter Twyll Genedlaethol (NFI).<br>• Lle mae twyll wedi digwydd, mae tystiolaeth o ddysgu ar ôl digwyddiadau lle mae sefydliad yn edrych ar sut digwyddodd y twyll a thueddiadau posibl i ddysgu o hyn a lleihau digwyddiadau yn y dyfodol. |
| 5.2 A yw'r Cyngor yn ceisio ac yn croesawu cyfleoedd newydd i arloesi gyda dadansoddeg data i gryfhau atal a chanfod twyll? | • Mae'r Cyngor yn defnyddio paru data, sy'n cynnwys cymharu setiau o ddata o fewn neu ar draws sefydliadau, i dynnu sylw at anghysondebau y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i atal a chanfod twyll.<br>– Ceisio gwneud y mwyaf o waith NFI;<br>– Cyfleoedd eraill y tu hwnt i NFI.<br>• Pan nodwyd achosion o dwyll, mae'r gwendidau y tu ôl i'r twyll hyn yn cael eu bwydo'n ôl i adrannau i systemau gwrth-dwyll. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| **6. Cydweithredu** | |
| 6.1 A yw'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol ac yn defnyddio datblygiadau mewn dadansoddi data, i rannu data a gwybodaeth er mwyn helpu i ddod o hyd i dwyll a'i frwydro? | • Mae strategaeth gwrth-dwyll y Cyngor yn cynnwys partneriaethau cydweithio â sefydliadau eraill i reoli risgiau lle bo hynny'n briodol.<br>• Mae gan y Cyngor brotocolau ar waith i hwyluso cydweithio a rhannu gwybodaeth â chyrff allanol e.e. memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer rhannu data.<br>• Mae tystiolaeth bod y sefydliad yn cymhwyso'r dysgu drwy gydweithio er mwyn helpu i lywio asesiadau risg.<br>• Cydweithredu â'r NFI. |
| **7. Llywodraethu** | |
| 7.1 A yw'r Cyngor yn casglu gwybodaeth am golledion ac adferiadau a rhannu gwybodaeth am dwyll gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i sefydlu darlun cenedlaethol mwy cywir, cryfhau rheolaethau, a gwella monitro a chefnogi gweithredu wedi'i dargedu? | • Mae'r Cyngor yn cynnal cofnod o golledion ac adferiadau twyll.<br>• Mae gan y Cyngor fethodoleg benodol i sicrhau y gellir amcangyfrif colledion o ganlyniad i dwyll yn gyson a chefnogi asesiad risg mwy cywir.<br>• Mae'r Cyngor wedi gosod amcanion a thargedau ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ac yn monitro perfformiad. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn rydym yn edrych amdano) |
|---|---|
| **7. Llywodraethu** | |
| 7.2 A yw Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor (GAC) yn ymgysylltu'n llawn â gwrth-dwyll, gan ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd, monitro a dwyn swyddogion i gyfrif? | • Mae'r GAC yn cymryd rhan weithredol mewn gwrth-dwyll ac yn deall amgylchedd rheoli'r Cyngor a risgiau gan gynnwys risgiau twyll.<br>• Mae'r GAC yn cael gwybodaeth am lwyth achosion twyll a chynnydd yn rheolaidd (o leiaf ddwywaith y flwyddyn).<br>• Mae gwaith y tîm gwrth-dwyll yn cael ei adolygu gan GAC i sicrhau bod ei berfformiad yn bodloni gofynion / safonau ansawdd. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.